# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 25 Medi 2013 i'w hateb ar 2 Hydref 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## Gofyn i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

1. **Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud o ran cyflawni'r Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0321(ESK)

2. **Christine Chapman (Cwm Cynon):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant? OAQ(4)0315(ESK)

3. **Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gan bobl ifanc y sgiliau sydd eu hangen arnynt i ymuno â'r gweithlu? OAQ(4)0312(ESK)

4. **William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu ieithoedd Ewropeaidd modern yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0317(ESK)

5. **William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r trafodaethau a gynhaliwyd gyda chyd-Weinidogion i ennyn cefnogaeth traws-bortffolio i bolisïau addysg? OAQ(4)0316(ESK)

6. **Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y Cynllun Bwyd Ysgol a ddaeth i'r casgliad bod darpariaeth dda o ran bwyd mewn ysgolion nid yn unig yn arwain at blant iachach, ond at well cyrhaeddiad hefyd? OAQ(4)0324(ESK)

**7. Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn amlinellu'r camau sy'n cael eu cymryd i greu hyfforddiant a phrentisiaethau effeithiol ac ymarferol mewn sgiliau adeiladu? OAQ(4)0310(ESK) **TYNNWYD YN ÔL**

**8. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am berfformiad consortia addysg? OAQ(4)0320(ESK) **TYNNWYD YN ÔL**

**9. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei weledigaeth ar gyfer darparu ieithoedd Ewropeaidd modern yng Nghymru yn y dyfodol? OAQ(4)0318(ESK)

**10. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella lefelau llythrennedd disgyblion yng Nghymru? OAQ(4)0307(ESK)

**11. Elin Jones (Ceredigion):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch ynglŷn ag ariannu prifysgolion? OAQ(4)0319(ESK)

**12. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw asesiad y mae wedi ei wneud o effeithiolrwydd y grant amddifadedd disgyblion? OAQ(4)0309(ESK)

**13. Simon Thomas (Mid and West Wales):** Will the Minister make a statement on the action points in 'Welsh Medium Education Strategy: Annual Report 2012-13'? OAQ(4)0323(ESK)**W**

**13. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau gweithredu yn 'Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad blynyddol 2012-13'? OAQ(4)0323(ESK)**W**

**14. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i wella cyfleoedd sgiliau yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0313(ESK)

**15. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ganlyniadau’r profion Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol eleni? OAQ(4)0311(ESK)**W**

## Gofyn i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

**1. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Pa welliannau y mae'r Gweinidog wedi eu cynllunio ar gyfer y seilwaith trafnidiaeth yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0300(EST)

**2. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa asesiad effaith a gynhaliodd Llywodraeth Cymru cyn lleihau'r cymorth ariannol ar gyfer y Grant Gweithredu Gwasanaethau Bysiau? OAQ(4)0307(EST) **Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig**

**3. Elin Jones (Ceredigion):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo teithio ar y rheilffyrdd yng nghanolbarth Cymru? OAQ(4)0310(EST)

**4. Elin Jones (Ceredigion):** Beth yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer marchnata twristiaeth yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0309(EST)

**5. Keith Davies (Llanelli):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am waith Llywodraeth Cymru i annog twf economaidd? OAQ(4)0312(EST)**W**

**6. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am welliannau i gefnffyrdd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0306(EST)

**7. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau i ddatblygu strategaeth dwristiaeth Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0305(EST)

**8. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am raglenni Llywodraeth Cymru i gynorthwyo busnesau bach a chanolig? OAQ(4)0311(EST) **TYNNWYD YN ÔL**

**9. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer busnesau yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0308(EST)

**10. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fanteision twristiaeth ddiwylliannol? OAQ(4)0304(EST)

**11. Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am raglen waith Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy? OAQ(4)0313(EST)**W**

**12. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynorthwyo busnesau bach a chanolig yng Nghymru? OAQ(4)0303(EST)

**13. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei chynlluniau i helpu'r sector twristiaeth yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0301(EST)

**14. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella diogelwch ar ffyrdd Cymru? OAQ(4)0298(EST)

**15. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiwydiant twristiaeth Cymru? OAQ(4)0299(EST)